**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/7636/16

Lynne Neagle AC
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2016

Annwyl Lynne

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 30 Tachwedd a oedd yn cwmpasu ymatebion i lythyr y Pwyllgor yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 10 Tachwedd, fel y gofynnwyd, rwyf wedi nodi isod fanylion pellach am y broses o gynllunio strategaeth ymadael ar gyfer y rhaglen Her Ysgolion Cymru. O ystyried bod gan bob ysgol Llwybrau Llwyddiant gynllun gwella pwrpasol, gyda strategaethau ymadael unigol yn eu lle, rwyf wedi canolbwyntio ar y broses gyffredinol a fabwysiadwyd wrth baratoi ar gyfer trydedd flwyddyn y gweithgaredd.

Rwyf wedi cadarnhau o'r blaen fod Her Ysgolion Cymru wedi'i datblygu fel ymyriad ag iddo amser cyfyngedig er mwyn cyflymu'r gwelliant yn yr ysgolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf a bod cyllid i gefnogi trydedd flwyddyn y rhaglen wedi'i glustnodi hyd at fis Mawrth 2017. Felly datblygwyd cynllun y rhaglen ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17 yn y cyd-destun hwn, gyda gwaith cynllunio ac yna waith gweithredu dilynol yn digwydd ar sawl lefel.

*Datblygu cynlluniau gwella blwyddyn 3 Ysgolion Llwyddiant*

O ran datblygu cynigion ysgolion Llwybrau Llwyddiant ar gyfer y drydedd flwyddyn, dechreuodd y gwaith hwn yn ffurfiol ym mis Chwefror 2016. Rhoddwyd canllawiau a thempledi cynllunio i bob ysgol er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu cynigion a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar strategaethau cynaliadwy ar gyfer gwella:

- ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel; ac
- ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd hyn gyda'r amod caeth y byddai'r cyllid i gefnogi gweithgaredd gwella Her Ysgolion Cymru ond ar gael hyd 31 Mawrth 2017, ac y dylid ymgorffori strategaethau ymadael ar ôl i'r cyllid ddod i ben yn eu cynigion.

Yna cafwyd cyfnod cynllunio 11 wythnos ar gyfer ysgolion, ac yn ystod yr amser hwn roeddent yn gweithio gyda'u Cynghorydd Her Ysgolion Cymru i ddatblygu eu strategaethau gwella ysgol. Ar yr un pryd, roedd eu Cynghorydd yn gweithio gyda Grŵp Pencampwyr Her Ysgolion Cymru a gynorthwyodd gyda'r gwaith o gysylltu ag awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru fel y bo'n briodol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer gwella yn gwneud y defnydd gorau o'r arian, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael.

Yn olaf, trafodwyd cynigion pob ysgol a'u cytuno yn eu cyfarfodydd Bwrdd Gwella Carlam, y mae ei aelodaeth yn cynnwys y Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr, cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol, un o Benaethiaid clwstwr cynradd, a'r Cynghorydd Her Ysgolion Cymru.

*Gwaith craffu ychwanegol ar gynlluniau gwella blwyddyn 3 Ysgolion Llwybrau Llwyddiant*

Ar ôl cael sicrwydd bod y broses briodol wedi'i dilyn, a bod rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn ymwneud â datblygu cynlluniau gwella, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru broses graffu ychwanegol ar gynigion fesul ysgol. Roedd hyn yn cynnwys eu herio'n gadarn i gadarnhau bod strategaethau ymadael ar waith lle y gwnaed cais am gyllid Her Ysgolion Cymru, yn enwedig lle y defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi cyflogi staff ychwanegol. Ni chafodd cynigion nad oeddent yn cynnwys amlinelliad clir o strategaethau ymadael, gan gynnwys sut y byddai gweithgaredd yn cyfrannu tuag at welliant cynaliadwy yn y tymor hwy, eu hystyried.

Cadarnhawyd cymeradwyaeth derfynol o gyllid i ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn nhymor yr haf 2016 ac roedd yn cynnwys y cafeat mai dim ond i gefnogi gweithgaredd hyd at fis Mawrth 2017 y gellid defnyddio cyllid Her Ysgolion Cymru.

*Gweithredu cynlluniau gwella a chynllunio ar gyfer pontio*

Mae pob Bwrdd Gwella Carlam ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn parhau i gyfarfod yn fisol, a'r prif orchwyl yw sicrhau bod cynlluniau gwella a strategaethau ymadael yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, mae gwaith i gefnogi gwelliant parhaus ysgolion Llwybrau Llwyddiant ar ôl i Her Ysgolion Cymru ddod i ben wedi parhau ac mae'n cynnwys:

- trafodaethau rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, Pencampwyr Ysgolion Her Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol, er mwyn sicrhau pontio llyfn o'r rhaglen;
- cynnal cyfarfodydd Pencampwr a Chynghorwyr Her Ysgolion Cymru yn rheolaidd mewn swyddfeydd consortia addysg rhanbarthol er mwyn rhannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd;
- trafodaethau ar ysgolion Llwybrau Llwyddiant penodol gydag awdurdodau lleol unigol a'u consortia.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, rwyf hefyd wedi bod yn trafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael yn dilyn Datganiad yr Hydref. Mae hyn gyda'r nod o ystyried ymhellach gyllid ag iddo amser cyfyngedig gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd o'r rhaglen a sut y gallwn barhau i gefnogi ysgolion mewn amgylchiadau heriol. Fel y nodwyd yn fy ngohebiaeth flaenorol gydag aelodau o'r Pwyllgor, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw ddatblygiadau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Addewais hefyd roi canlyniadau TGAU ysgolion Llwybrau Llwyddiant i chi ac fe wnaf hynny maes o law ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Byddaf hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor pan fydd ail adroddiad y gwerthusiad rhaglen yn cael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Education